Lefel 2

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

MAI 2018

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Amcanion asesu	4
Cynllun asesu	4
Deilliannau	5
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymeg	6
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	7

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Mawrth 2017)*[1]: *Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] http://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. Datblygwyd y rhain yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i'w gyflwyno gan amrywiaeth o ddarparwyr dysgu gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac ysgolion. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd plant. Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio, neu sy'n chwilio am waith, gyda theuluoedd a phlant dan 8 oed mewn lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig a'r rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant rhwng 0 a 19 oed drwy wasanaethau plant y GIG. Mae'r cynnwys yn adlewyrchu amrywiaeth o rolau ac oedrannau gwahanol. Bydd angen i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant rhwng 8 a 12 oed mewn lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig hefyd gwblhau cymhwyster gwaith chwarae ychwanegol a nodwyd gan Skills Active er mwyn bodloni gofynion rheoleiddio.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Daw'r meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon i rym o fis Mai 2018.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd o 1 Medi 2019 er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City and Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Fair Access by Design* (cyhoeddiad Saesneg yn unig)[4]. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn a ddyfarnwyd* yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Rhaid i gynnwys pwnc y cymhwyster hwn ymwneud â *Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar*[5].

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd gynnig ardystiad o gymhwyster o 300 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH) i ddysgwyr a bydd angen ei diffinio o ran Cyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) a chredyd.
2. Rhaid i un o'r canlynol ymddangos ar dystysgrifau fel teitl y cymhwyster:

   2.1. Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.
3. Rhaid i gynllun Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd sicrhau'r canlynol:

   3.1. bod y deilliant a gyflawnir yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddangosir yn yr asesiadau;

   3.2. y gellir cymharu'r cymhwyster â chymwysterau ar yr un lefel ledled y DU.

[3] http://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf
[5] https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlur-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant

Nodau ac amcanion y pwnc

4. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

    4.1. datblygu eu gwybodaeth am yr egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n ategu arfer Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, a'u dealltwriaeth ohonynt;

    4.2. datblygu eu gwybodaeth am ffyrdd o weithio yn y sectorau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, a'u dealltwriaeth ohonynt;

    4.3. datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n llywio arfer effeithiol ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant;

    4.4. meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth graidd i'w helpu i symud ymlaen er mwyn astudio ymhellach neu weithio ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Cynnwys y pwnc

5. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

6. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd gynnwys y cynnwys gorfodol a nodir yn *Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cynnwys Craidd (Atodiad A)*. Bydd y cynnwys hwn yn ffurfio 100% o gynnwys y cymhwyster.

Amcanion asesu

7. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol yn y manylebau dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir:

Amcan	Gofynion	Pwysoliadau
AA1	Dangos gwybodaeth am gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, a dealltwriaeth ohonynt.	O leiaf 50%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth am gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, a dealltwriaeth ohonynt, mewn cyd-destunau perthnasol.	O leiaf 40%

Rhesymeg ofynnol: wrth gyflwyno'r fanyleb i'w chymeradwyo, bydd angen i'r corff dyfarnu esbonio sut mae pwysoliadau terfynol yr amcanion asesu wedi cael eu penderfynu, a nodi hefyd a fyddant yn rhai penodol dros oes y cymhwyster neu'n amrywio yn ôl y gyfres.

Cynllun asesu

8. Bydd Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd yn gymhwyster llinol.
9. Rhaid ymdrin â holl gynnwys y pwnc yn yr asesiadau dros oes y fanyleb.
10. Bydd 80% o Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd yn cael ei hasesu'n fewnol, a bydd 20% yn cael ei hasesu'n allanol.
11. Bydd yr asesiad allanol:
    11.1. yn cynnwys arholiad amlddewis terfynol;
    11.2. yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth am elfennau gwahanol o'r cymhwyster, a'u dealltwriaeth ohonynt, yn sgîl dilyn y cwrs astudio llawn ar gyfer y cymhwyster hwnnw.
12. Bydd yr asesiad mewnol:
    12.1. yn cynnwys tasg dan reolaeth ar gyfer pob uned y bydd ei hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol ar ôl i bob tasg gael ei chwblhau;

12.2. yn nodi'r math o dystiolaeth i'w chasglu a faint o dystiolaeth sydd ei hangen at ddibenion asesu.

13. Rhaid i'r mathau o gwestiynau yn yr asesiadau roi'r cyfle i ddysgwyr roi cymysgedd o atebion byr a hirach.

14. Rhaid i gynlluniau marcio asesiadau nodi sut mae'r marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn neu dasg asesu yn gysylltiedig â'r amcanion asesu.

15. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd fod ar gael yn ôl y galw.

16. Ni yw manyleb Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd nodi sawl gwaith y gellir ail-sefyll yr asesiadau.

Deilliannau

17. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau pob asesiad gofynnol o fewn *Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd* yn cael tystysgrifau.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

18. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i gorff dyfarnu ddarparu dogfen fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer pob uned/cydran a dogfen esboniadol sy'n esbonio'r rhesymeg dros nodweddion cynllunio allweddol y cymhwyster arfaethedig (dogfen resymeg).

Gofynion rhesymeg

19. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

20. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

    20.1. strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;

    20.2. dull asesiadau mewnol ac allanol o ymdrin â'r cynnwys dros amser;

    20.3. y strwythur asesu, gan gynnwys nifer yr unedau/cydrannau asesu, pwysoliadau, y broses dyrannu marciau a hyd yr unedau/cydrannau asesu hynny;

    20.4. sut y caiff yr amcanion asesu eu dehongli lle y bo'n berthnasol, a sut y penderfynwyd gwasgaru amcanion asesu ar draws ac o fewn y cwestiynau asesu;

    20.5. cynllun deunyddiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math a'r amrywiaeth o dasgau asesu sydd wedi'u cynnwys ym mhob cydran a'u perthynas â'r amcanion asesu;

    20.6. cynllun cynlluniau marcio a sut y cânt eu defnyddio;

    20.7. sut y bydd asesiadau allanol yn cael eu cynnal yn ôl y galw;

    20.8. sut y cafodd y gofyniad i gynnwys safbwynt Cymreig ei fodloni a sut mae'r dull gweithredu yn briodol i'r pwnc;

    20.9. y prosesau a ddefnyddir i osod a chynnal safonau yn yr asesiadau;

    20.10. y prosesau cynllunio a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y ffiniau arfaethedig ar gyfer pob cydran ac ar gyfer y cymhwyster ar y cyfan.

Gofynion gweithredol

21. Rhaid i'r fanyleb nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd ar gyfer aseswyr, aswirwyr ansawdd mewnol ac aswirwyr ansawdd allanol.

22. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:

    22.1. cofrestriadau;

    22.2. sicrhau ansawdd;

    22.3. prosesau asesu allanol.

Atodiad A

Uned 1. Egwyddorion a gwerthoedd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant (0-19 oed)

1.1 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau
1.2 Dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau
1.3 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
1.4 Dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn
1.5 Caniatáu i blant gymryd risgiau
1.6 Llesiant
1.7 Cydberthnasau cadarnhaol a ffiniau cadarnhaol
1.8 Cyfathrebu
1.9 Y Gymraeg a diwylliant Cymraeg
1.10 Dulliau gweithredu cadarnhaol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
1.11 Newid a phontio o ran gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
1.12 Myfyrio

Uned 2. Iechyd, llesiant, dysgu a datblygu

2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd, llesiant, dysgu, datblygu a chwarae
2.2 Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, llesiant, dysgu datblygu a chwarae plant
2.3 Chwarae
2.4 Lleferydd, iaith a chyfathrebu
2.5 Anghenion cymorth ychwanegol
2.6 Gofal corfforol plant
2.7 Maeth a hydradiad
2.8 Rhoi meddyginiaeth

Uned 3. Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant

3.1 Rolau a chyfrifoldebau'r gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant
3.2 Gweithio mewn partneriaeth
3.3 Gweithio mewn Tîm
3.4 Trin gwybodaeth
3.5 Ymddygiad Personol Gweithiwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
3.6 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Uned 4. Diogelu plant

4.1 Fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer diogelu
4.2 Diogelu plant rhag niwed, camdriniaeth neu esgeulustod

4.3 Ffactorau, sefyllfaoedd a chamau gweithredu a all arwain neu gyfrannu at niwed, camdriniaeth neu esgeulustod 4.4 Cofnodi ac adrodd ar ddiogelu

Uned 5. Iechyd a diogelwch ym meysydd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

5.1 Iechyd a Diogelwch yn y lleoliad gwaith 5.2 Asesiadau risg ar gyfer iechyd a diogelwch 5.3 Diogelwch Tân 5.4 Symud a Thrin a Symud a Lleoli 5.5 Atal a rheoli heintiau 5.6 Diogelwch Bwyd 5.7 Sylweddau Peryglus 5.8 Diogelwch yn y lleoliad gwaith 5.9 Rheoli straen

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org